# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

Amser: 13.33 - 14.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13735

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)454 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)455 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(6)456 - Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.4 SL(6)457 - Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.5 SL(6)458 - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 3.1 SL(6)440 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 3.2 SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd mewn cysylltiad â chyfarfodydd y canlynol:

- y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol,
- y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol
- y Grŵp Rhyngweinidogol Chwaraeon.

### 4.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurder.

### 4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

### 4.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau’r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

### 4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno. Cytunodd hefyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurder ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y byddai'n copïo'r ohebiaeth i'r Pwyllgor Cyllid.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomataidd

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 10 Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi - Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithredu a Chydsyniad Deddfwriaethol: Trafodaeth

Trafododd y Pwyllgor Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ’r Arglwyddi a chytunwyd y byddai’n cyflwyno tystiolaeth, ac y byddai drafft ohoni’n cael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.